

## **COVID-19 a Chadw Gwenyn**

Fel ceidwaid gwenyn, cofiwch ddilyn y canllawiau canlynol wrth edrych ar ôl eich gwenyn mêl. Darperir diweddariadau i'r canllawiau hyn pan fo angen. Dylech gadw at y canllawiau diweddaraf gan y Llywodraeth sy'n cael eu newid yn rheolaidd.

Mae Defra, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru yn gofyn i chi fel ceidwaid gwenyn fod yn gyfrifol ac i wneud yn siŵr eich bod yn parhau i gadw arferion da o ran cadw gwenyn, rheoli stoc yn effeithlon a gwiriadau iechyd wrth ddilyn [Canllawiau'r Llywodraeth](#) ar COVID-19.

Dylech ddilyn canllawiau iechyd y Cyhoedd ar gadw pellter cymdeithasol. Dylai pawb, gan gynnwys ceidwaid gwenyn, osgoi casglu mewn mwy criw o fwy na dau berson, ac mae hyn yn cynnwys yn eich gwenynfa. Dylech gadw pellter o 2 fetr rhwng chi eich hun ac eraill i leihau lledaenu COVID-19.

Mae'r cyngor cyffredinol i geidwaid gwenyn fel a ganlyn:

- Dylech barhau i weithio a gofalu am eich anifeiliaid fel arfer, cyn belled ag sy'n bosibl. Ni ddylech ddilyn mesurau sy'n peryglu lles yr anifeiliaid yn eich gofal.
- Dylech gadw mesurau [bioddidogelwch](#) yn eich gwenynfa.
- Ni ddylech rannu offer cadw gwenyn gyda cheidwaid gwenyn eraill, yn enwedig offer y cwch a dyfeisiadau llaw a dillad diogelwch eraill.
- Yn unol â'r cyngor cyffredinol ar COVID-19, dylech olchi eich dwylo am 20 eiliad o leiaf cyn ac wedi ichi ddod i gysylltiad ag unrhyw anifail. Defnyddiwch ddiheintydd dwylo os mai dyna'r unig beth sydd gennych.
- Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar hyn o bryd o ran symud nythfeydd gwenyn – er enghraifft, symud gwenyn i gyflawni contractau peillio. Fodd bynnag, dylech gadw at ganllawiau iechyd y cyhoedd i atal lledaeniad COVID-19 wrth gyflawni'r gweithgareddau hyn, gan gynnwys y canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol.
- Os oes angen ichi ymweld â safleoedd ar wahân i'ch safle eich hun, dylech fod yn gyfarwydd â'r canllawiau iechyd ar [atal a rheoli heintio](#) a dilyn y mesurau i leihau'r risg o arwynebeddau wedi'u heintio.
- Os ydych wedi profi'n bositif am COVID-19 neu eich bod yn dangos symptomau COVID-19, waeth pa mor ysgafn, dylech hunan-ynysu gartref â pheidio ag ymweld â safleoedd eraill. Yn ddelfrydol, dylai ceidwaid gwenyn arall ysgwyddo'r ddyletswydd hon pan yn bosibl. Rydym yn awgrymu bod cymdeithasau lleol yn ystyried sut y gallant gynorthwyo'r rhai hynny sy'n gaeth i'r tŷ neu yn methu â gofalu am eu gwenyn yn ystod y cyfnod anodd hwn i bawb.

- Os yw eich gwenyn i gael eu harchwilio gan arolygydd y llywodraeth, dylech fod yn ymwybodol y gallai oedi ddigwydd gan ddibynu a yw'r adnoddau ar gael o fewn yr arolygiaeth.
- Os yw eich gwenyn i gael eu harchwilio gan arolygydd y llywodraeth, a, ch bod mewn categori risg uchel, neu yn dangos symptomau COVID-19, mae'n rhaid ichi adael i'ch arolygydd wybod cyn yr archwiliad. Bydd trefniadau'n cael eu gwneud fydd yn cyfyngu ar y posibilrwydd o ledaenu COVID-19. Gallai hyn gynnwys yr archwiliad yn mynd yn ei flaen heb i'r ceidwad gwenyn fod yn bresennol neu bod oedi cyn yr archwiliad.
- Ar gyfer pob archwiliad, bydd pellter cymdeithasol o 2 fetr o leiaf ac felly ni fydd yn bosibl i'r ceidwad sefyll wrth y cwch gyda'r archwilydd wrth i'r archwiliad ddigwydd.
- Cewch barhau i fewnforio gwenyn. Nid oes tystiolaeth i gefnogi cyfyngiadau ar symudiadau rhyngwladol na masnach mewn gwenyn, ac nid oes gan y DU unrhyw reolau ychwanegol o ran fewnforio gwenyn o ran COVID-19.
- Dylech hysbysu'r awdurdodau o unrhyw glefydau neu blâu yn y ffordd arferol – gweler y [dudalen iechyd gwenyn](#) ar gov.uk am ragor o wybodaeth.
- Dylech ddefnyddio dulliau hwsmonaeth i leihau heidio. Os oes yn rhaid ichi ymateb i gasglu haid mae angen ichi sicrhau eich bod yn defnyddio canllawiau pellter cymdeithasol wrth gasglu'r haid. Os nad yw hynny'n bosibl, yna ni ddylid casglu'r haid. Felly ceisio osgoi heidiau yw'r ffordd orau o ddelio â hyn.